**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Hydref 2010**

**Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2009-12**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno, er cymeradwyaeth yr Aelodau, y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2009-12.

## Cefndir

2 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub lunio Cynllun Lleihau Risg a/neu cynllun gweithredu blynyddol, cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ei gylch, a'i gyhoeddi'n flynyddol, a hynny erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi. Mae hyn yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth y Cynulliad.

3 Mae'n ofynnol hefyd i Awdurdodau Tân ac Achub lunio Cynllun Gwella, cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ei gylch, a'i gyhoeddi'n flynyddol, a hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi 30 Medi yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi. Mae hyn yn unol â'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2010.

4 Hefyd, mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn ymwneud â phob blwyddyn ariannol cyn 31 Hydref yn y flwyddyn wedi'r flwyddyn y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi. Mae hyn yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

5 Mae canllawiau gan Lywodraeth y Cynulliad yn nodi bod amseru'r cyhoeddiadau hyn yn awgrymu y byddai'n gyfleus llunio un cynllun yn cynnwys adroddiad ar y flwyddyn ariannol flaenorol, crynodeb o'r amcanion y cytunwyd arnynt yn y flwyddyn gyfredol, a'r cynllun gwella, ac unrhyw amcanion ychwanegol o ran y Cynllun Lleihau Risg, am y flwyddyn ariannol i ddod.

## Cyflwyniad

6 Cymeradwywyd Cynllun Cyfunol drafft i Leihau Risg a Gwella ar gyfer 2009-2012 yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin 2010. Roedd y drafft hwnnw yn cynnwys data amcanol heb ei archwilio ac amcanion lleihau risg drafft ar gyfer Ebrill 2011 ymlaen. Nodwyd byddai Swyddogion yn ychwanegu gwybodaeth i'r ail gynllun drafft drwy gydol y cyfnod ymgynghori er mwyn cynhyrchu trydydd cynllun er cymeradwyaeth yr Awdurdod yng nghyfarfod mis Hydref 2010.

7 Cymeradwywyd hefyd, yn y cyfarfod ym mis Mehefin, gynnwys y ddogfen ymgynghorol, a oedd yn cyflwyno amcanion o ran gwella a lleihau risg. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r Panel Gweithredol, yn dilyn y cyfnod ymgynghori, yn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd ac yn gwneud argymhelliad i'r Awdurdod llawn am gynnwys terfynol y cynllun cyfunol.

## Gwybodaeth

8 Yn dilyn ystyriaeth o'r ymatebion a dderbyniwyd cytunodd y Panel Gweithredol, ar 20fed Medi 2010, argymell y dylai'r Awdurdod Tân selio'r Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2011-12 ar yr amcanion gwella a lleihau risg arfaethedig.

9 Mae'r trydydd drafft o'r Cynllun Cyfunol 2009-12 nawr wedi ei gwblhau ac mae ynghlwm fel atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

## Argymhellion

10 Argymhellir fod Aelodau'n cymeradwyo'r trydydd drafft o'r Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2009-12 a chytuno i'w gyhoeddi cyn y dyddiad cau statudol o 31 Hydref 2010.